Dychwelyd i'r ddaear y bydd yr Arglwydd Iesu Grist yn fuan iawn. Dyma addewid a wnaeth EF tra oedd yn dal yn y byd hwn 2000 o flynyddoedd yn ôl (Ioan 14:1-3). Sut gallwn wybod yn bendant a fydd Ef yn siŵr o ddychwelyd? Darllenwch y proffwydoliaethau y dywedodd yr Arglwydd Iesu Ei Hun y byddant yn digwydd yn y diwedd. Drwy ddarllen yr ysgrythurau hyn yn ofalus a'u cymharu â'r hyn sy'n digwydd yn y byd ar hyn o bryd, profir y bydd yr Arglwydd Iesu'n wir yn dychwelyd yn ystod ein hoes ni.

## 1 DISTRYWIO'R DEML

Aeth Iesu allan o'r deml, a phan oedd ar ei ffordd oddi yno daeth ei ddisgyblion ato i dynnu ei sylw at adeiladau'r deml. Dywedodd yntau wrthynt, "Oni welwch chwi yr holl bethau hyn? Yn wir, 'rwy'n dweud wrthych, ni adewir yma faen ar faen; ni bydd yr un heb ei fwrw i lawr" (Math 24:1-2; Marc 13:1-2; Luc 21:5-6). **Cyflawnwyd hyn yn llythrennol yn 70 O.C.**

## 2 ARWYDDION O'R DYFODIAD

Fel yr oedd yn eistedd ar Fynydd yr Olewydd gyferbyn â'r deml, gofynnodd Pedr ac Iago ac Ioan ac Andreas iddo, o'r neilltu, "Dywed wrthym pa bryd y bydd hyn, a beth fydd yr arwydd pan fydd hyn oll ar ddod i ben?" (Math 24:3; Marc 13:3-4; Luc 21:7).

## 3 TWYLLWYR A DDAW

Meddai yntau, "Gwyliwch na chewch eich twyllo. Oherwydd fe ddaw llawer yn fy enw i gan ddweud, 'Myfi yw', ac, 'Y mae'r amser wedi dod yn agos'. Peidiwch â mynd i'w canlyn (Math 24:4-5; Marc 13:5-6; Luc 21:8).

## 4 RHYFELOEDD A SÏON AM RYFELOEDD

"A phan glywch am ryfeloedd a gwrthryfeloedd, peidiwch â chymryd eich dychrynu. Rhaid i hyn ddigwydd yn gyntaf, ond nid yw'r diwedd i fod ar unwaith" (Math 24:6; Marc 13:7; Luc 21:9).

## 5 RHYFELOEDD ETHNIG | DAEARGRYNFEYDD | NEWYNAU | CLEFYDAU

Y pryd hwnnw dywedodd wrthynt, "Cyfyd cenedl yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas. Bydd daeargrynfâu dirfawr, a newyn a phlâu mewn mannau. Bydd argoelion arswydus ac arwyddion enfawr o'r nef" (Math 24:7; Marc 13:8; Luc 21:10-11).

## 6 Dechrau'r gwewyr fydd hyn (Math 24:8; Marc 13:8).

## 7 ERLEDIGAETH I GRISTNOGION

Ond cyn hyn oll byddant yn gosod dwylo arnoch ac yn eich erlid. Fe'ch traddodir i'r synagogau ac i garchar, fe'ch dygir gerbron brenhinoedd a llywodraethwyr o achos fy enw i; hyn fydd eich cyfle i dystiolaethu (Math 24:9; Marc 13:9; Luc 21:12-13).

## 8

A phan ânt â chwi i'ch traddodi, peidiwch â phryderu ymlaen llaw beth i'w ddweud, ond pa beth bynnag a roddir i chwi y pryd hwnnw, dywedwch hynny; oblegid nid chwi sydd yn llefaru, ond yr Ysbryd Glân. Fe roddaf fi i chwi huodledd, a doethineb na all eich holl wrthwynebwyr ei wrthsefyll na'i wrth-ddweud (Marc 13:11; Luc 21:14-15).

## 9 BRADYCHIAD MEWN TEULUOEDD

Fe'ch bradychir gan eich rhieni a'ch brodyr a'ch perthnasau a'ch cyfeillion, a pharant ladd rhai ohonoch. A chas fyddwch gan bawb o achos fy enw i. Ond ni chollir yr un blewyn o wallt eich pen. Trwy eich dyfalbarhad meddiannwch fywyd i chwi eich hunain (Math 24:9-10; Marc 13:12-13; Luc 21:16-19).

## 10 CARIAD A OERA

Ac am fod drygioni yn amlhau bydd cariad llawer iawn yn oeri. Ond y sawl sy'n dyfalbarhau i'r diwedd a gaiff ei achub (Math 24:12-13).

## 11

Ac fe gyhoeddir yr **EFENGYL** hon am y deyrnas drwy'r byd i gyd fel tystiolaeth i'r holl genhedloedd, **ac yna** y daw'r diwedd (Math 24:14; Marc 13:10).

## 12 FFIEIDD-DRA ANGHYFANEDD-DRA YN JERWSALEM

"Ond pan welwch Jerwsalem wedi ei hamgylchynu gan fyddinoedd, yna byddwch yn gwybod bod awr ei diffeithio wedi dod yn agos (Luc 21:20). "Felly, pan welwch 'y ffieiddbeth diffeithiol', y soniodd y proffwyd Daniel amdano, yn sefyll yn y lle sanctaidd" (dealled y darllenydd) "yna ffoed y rhai sydd yn Jwdea i'r mynyddoedd. Yr hwn sydd ar ben y tŷ, peidied â mynd i lawr i gipio'i bethau o'i dŷ; a'r hwn sydd yn y cae, peidied â throi yn ei ôl i gymryd ei fantell (Math 24:15-18; Marc 13:14-16; Luc 17:31; 21:21). Gwae'r gwragedd beichiog a'r rhai sy'n rhoi'r fron yn y dyddiau hynny! A gweddïwch na fyddwch yn gorfod ffoi yn y gaeaf nac ar y Saboth (Math 24:19-20; Marc 13:17-18; Luc 21:23). Byddant yn cwympo dan fin y cleddyf, ac fe'u dygir yn garcharorion i'r holl genhedloedd. Caiff Jerwsalem ei mathru dan draed estroniaid nes cyflawni eu hamserau hwy (Luc 21:24).

## 13 ADEG TRAFFERTHION JACOB (Jer 30:6-7)

Oblegid y pryd hwnnw bydd gorthrymder mawr na fu ei debyg o ddechrau'r byd hyd yn awr, ac na fydd byth chwaith. Ac oni bai fod y dyddiau hynny wedi eu byrhau, ni fuasai undyn byw wedi ei achub; ond er mwyn yr etholedigion fe fyrheir y dyddiau hynny (Math 24:21-22; Marc 13:19-20; Luc 21:23) Oherwydd dyddiau dial fydd y rhain, pan fydd pob peth sy'n ysgrifenedig yn cael ei gyflawni (Luc 21:22).

## 14 PROFFWYDI A CHRISTIAU GAU

Yna, os dywed rhywun wrthych, 'Edrych, dyma'r Meseia', neu 'Dacw ef', peidiwch â'i gredu. Oherwydd fe gyfyd gau-feseiâu a gau-broffwydi, a rhoddant arwyddion mawr a rhyfeddodau nes arwain ar gyfeiliorn hyd yn oed yr etholedigion, petai hynny'n bosibl. Yn awr yr wyf wedi dweud wrthych ymlaen llaw (Math 24:23-24; Marc 13:21-23). Felly, os dywedant, 'Dyma ef yn yr anialwch', peidiwch â mynd allan; neu os dywedant, 'Dyma ef mewn ystafelloedd o'r neilltu', peidiwch â'u credu. Oherwydd fel y mae'r fellten yn dod o'r dwyrain ac yn goleuo hyd at y gorllewin, felly y bydd dyfodiad Mab y Dyn (Math 24:26-27; Luc 17:23-24).

## 15 ARWYDDION YN Y NEFOEDD

"Yn union ar ôl gorthrymder y dyddiau hynny, 'Tywyllir yr haul, ni rydd y lloer ei llewyrch, syrth y sêr o'r nef, ac ysgydwir nerthoedd y nefoedd' (Math 24:29, Marc 13:24-25; Luc 21:25). Ar y ddaear bydd cenhedloedd mewn cyfyngder yn eu pryder rhag trymru ac ymchwydd y môr. Bydd dynion yn llewygu gan ofn wrth ddisgwyl y pethau sy'n dod ar y byd. (Luc 21:25-26).



16 A'r pryd hwnnw ymddengys **ARWYDD MAB Y DYN** yn y nef; y pryd hwnnw bydd holl lwythau'r ddaear yn galaru, a gwelant Fab y Dyn yn dyfod ar gymylau'r nef gyda nerth a gogoniant mawr. Ac fe anfona ei angylion wrth sain utgorn mawr, a byddant yn cynnull ei etholedigion o'r pedwar gwynt, o un eithaf i'r nefoedd hyd at y llall (Math 24:30-31; Marc 13:26-27; Luc 21:27).

17 Pan ddechreua'r pethau hyn ddigwydd, ymunionwch a chodwch eich pennau, oherwydd y mae eich rhyddhad yn agosáu (Luc 21:28).

18 Adroddodd ddameg wrthynt: "Edrychwch ar y ffigysbren a'r holl goed. Pan fyddant yn dechrau deilio, fe wyddoch eich hunain o'u gweld fod yr haf bellach yn agos. Felly chwithau, **pan welwch y pethau hyn yn digwydd, byddwch yn gwybod fod teyrnas Dduw yn agos** (Math 24:32-33; Marc 13:28-29; Luc 21:29-31). Ond am y dydd hwnnw a'r awr ni ŵyr neb, nac angylion y nef, na'r Mab, neb ond y Tad yn unig (Math 24:36; Marc 13:32).

19 Fel y bu yn **NYDDIAU NOA**, felly hefyd y bydd yn nyfodiad Mab y Dyn. Fel yr oedd pobl yn y dyddiau cyn y dilyw yn bwyta ac yn yfed, yn cymryd gwragedd ac yn cael gwŷr, hyd y dydd yr aeth Noa i mewn i'r arch, ac ni wyddent ddim hyd nes y daeth y dilyw a'u hysgubo ymaith i gyd; felly hefyd y bydd yn nyfodiad Mab y Dyn (Math 24;37-39; Luc 17:26-27).

20 Fel y bu hi yn **NYDDIAU LOT:** yr oedd dynion yn bwyta, yn yfed, yn prynu, yn gwerthu, yn plannu, yn adeiladu; ond y dydd yr aeth Lot allan o Sodom, fe lawiodd dân a brwmstan o'r nef a difa pawb. Yn union felly y bydd hi yn y dydd y datguddir Mab y Dyn (Luc 17:28-30).

Gwyliwch Angel TV
www.angeltv.org

21 Cofiwch wraig Lot. Pwy bynnag a gais gadw ei fywyd ei hun, fe'i cyll, a phwy bynnag a'i cyll, fe'i ceidw yn fyw (Luc 17:32-33).

22 'Rwy'n dweud wrthych, *y nos honno* bydd dau mewn un gwely; cymerir y naill a gadewir y llall. Bydd dwy wraig yn malu yn yr un lle; cymerir y naill a gadewir y llall. Y pryd hwnnw bydd dau yn y cae; cymerir un a gadewir y llall. (Mathew 24:40-41; Luc 17:34 -36). Ac atebasant hwythau ef, "Ble, Arglwydd?" Meddai ef wrthynt, "Lle bydd y gelain, yno yr heidia'r eryrod" (Math 24:28; Luc 17:37).

23 **BYDDWCH WYLIADWRUS A GWEDDÏWCH**
Y mae fel dyn a aeth oddi cartref, gan adael ei dŷ a rhoi awdurdod i'w weision, i bob un ei waith, a gorchymyn i'r porthor wylio. Byddwch wyliadwrus gan hynny – oherwydd ni wyddoch pa bryd y daw meistr y tŷ, ai gyda'r hwyr, ai ar hanner nos, ai ar ganiad y ceiliog, ai yn fore – rhag ofn iddo ddod yn ddisymwth a'ch cael chwi'n cysgu (Marc 13:34-36).

24 Ond gwybyddwch hyn: pe buasai meistr y tŷ yn gwybod pa amser y byddai'r lleidr yn dod, buasai ar ei wyliadwriaeth ac ni fuasai wedi caniatáu iddo dorri i mewn i'w dŷ. Am hynny chwithau hefyd, byddwch barod, oherwydd pryd na thybiwch y daw Mab y Dyn (Math 24:43-44).

25 "Cymerwch ofal, rhag i'ch meddyliau gael eu pylu gan ddiota a meddwi a gofalon bydol, ac i'r *Dydd hwnnw* ddod arnoch yn ddisymwth fel magl; oherwydd fe ddaw ar bawb sy'n trigo ar wyneb y ddaear gyfan" (Marc 13:33; Luc 21:34-35).

26 'Byddwch effro bob amser, gan ddeisyf am nerth i ddianc rhag yr holl bethau hyn sydd ar ddigwydd, ac i sefyll yng ngŵydd Mab y Dyn' (Luc 21:36).

27 Yn wir, 'rwy'n dweud wrthych, nid â'r *genhedlaeth hon* heibio nes i'r cwbl ddigwydd. Y nef a'r ddaear, ânt heibio, ond fy ngeiriau i, nid ânt heibio ddim (Math 24:34-35; Marc 13:30-31; Luc 21:32-33).


**Yn eistedd ar Ei orsedd ogoneddus, bydd y Brenin Mawr – yr Arglwydd Iesu Grist - yn dychwelyd eto'n fuan iawn gyda grym a gogoniant mawr yng nghwmni Ei saint a'i angylion sanctaidd.**

**Ofnwch Dduw a rhowch iddo ogoniant, oherwydd daeth yr awr iddo farnu. Addolwch yr hwn a wnaeth nef a daear, y môr a ffynhonnau'r dyfroedd**
**(Datguddiad 14:7)**

**NI FYDD AMSER YN OEDI RHAGOR!**

**Mae Teyrnas Nef wedi agosáu'n awr. Edifarhewch a chredwch yn yr efengyl hon.**

**Paratowch at gyfarfod â'r Arglwydd eich Duw!**




**CYMRAEG | WELSH**